



# Ysgol Pentreuchaf

## 32. Polisi Cyfle Cyfartal

### Nod

Sicrhau cyfle cyfartal i bob plentyn a phob aelod o staff yn yr ysgol er mwyn galluogi pob unigolyn i gyrraedd ei lawn potensial. Datblygu pob unigolyn hyd ei eithaf heb ganiatau i'w ryw, cred, tras, iaith, anabled, ymarweddiad, gwleidyddiaeth, tarddiad ethnig neu unrhyw nodwedd arall fod yn rhwystr i hynny.

### Canllawiau

1. Ni fydd yr ysgol hon yn gwrthod derbyn unrhyw blentyn ar sail rhyw, hil, lliw nac anabled.
2. Byddwn yn sicrhau fod pob aelod o staff yn cofnodi a dweud enw pob plentyn yn gywir, yn ôl ei ddewis ef/hi o'r ynganiad. Rhaid dangos parch at enwau o wahanol ddiwylliannau.
3. Sicrhau yr un cyfleoedd i blant ym meysydd gwisg (gan gynnwys clustlysau a.y.y.b.) dangos gofal dros blant eraill, coginio, chwaraeon, Addysg Rhyw, Celf a.y.y.b. Cymryd camau i adeiladu sgiliau a hyder plant mewn meysydd lle maent yn draddodiadaol yn brin o hyder e.e. gwnio neu ddawns i fechgyn, pêl droed neu adeiladu i ferched.
4. Sicrhau cyfleoedd cyfartal wrth siarad mewn trafodaethau dosbarth cyfan, gwaith grwp neu waith pâr.
5. Er hyn, rhaid cydnabod fod merched a bechgyn weithiau eisiau dewis gweithgareddau sy'n cael eu hystyried yn draddodiadol i un grwp neu'r llall. Hefyd, maent weithiau eisiau gweithio/chwarae mewn grwpiau/parau un rhyw. Rhaid osgoi mynnu fod plant yn 'cymysgu' i fodloni dymuniadau athrawon pan fo ganddynt resymau dilys dros eu penderfyniadau eu hunain.
6. Creu amgylchedd lle mae cydweithrediad yn ganolog a lle bydd plant yn gweithio mewn amrywiaeth o wahanol grwpiau – un rhyw neu gymysg, ar hap neu wedi'u trefnu – yn gyfforddus ac i bwrpas.
7. Creu awyrgylch lle nad oes ffafriaeth na stereoteipio.
8. Cynnig yr un cyfleoedd i bob unigolyn, beth bynnag fo'i iaith, diwylliant, cefndir hiliol a.y.y.b.
9. Gwneud defnydd o esiamplau o lawer o draddodiadau diwylliannol a chydabod bod gan Brydain gefndir ddiwylliannol amrywiol.
10. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn amlygu cryfderau pob plentyn beth bynnag fo ei allu academaidd, iddi/iddo gael ymdeimlad o hunan werth a llwyddiant.
11. Sicrhau mynediad cyfartal i adnoddau, offer a theganau e.e. annog y merched i chwarae gyda theganau mecanyddol neu ddefnyddio offer technoleg ac yn yr un modd annog y bechgyn i chwarae yn y tŷ bach twt, gwisgo i fyny, gwnio a.y.y.b. Ni ystyrir fod rhai gweithgareddau yn addas i ferched neu fechgyn yn unig.
12. Datblygu agwedd bositif a gofalgar tuag at bobl o bob cymuned gan groesawu oedolion o ystod eang o gymdeithasau i ymweld â'r ysgol
13. Rhoi cymorth i blant i archwilio'r syniad o stereoteipio er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau cytbwys mewn perthynas â'u hunaniaeth – rhywogaeth, cefndir diwylliannol neu ethnig, anabled.
14. Sicrhau bod cosbau a ddefnyddir yr un fath i'r merched a'r bechgyn a'u bod yn cael eu defnyddio'n gyfartal.
15. Cynllunio gyda staff ategol i sicrhau defnydd o'r iard fydd yn osgoi unrhyw grwp yn cymryd drosodd un rhan ohoni ar draul plant eraill.
16. Darparu cefnogaeth er mwyn sicrhau bod goruchwylwyr amser chwarae yn ategu egwyddoriaion Cyfleoedd Cyfartal yn eu gwaith gyda'r plant.
17. Rhaid bod yn agored i roi cyfle cyfartal wrth benodi staff dysgu a staff ategol, gwisg a'r defnydd a wneir o gysiau, ymweliadau a.y.y.b.
18. Bydd unrhyw wahaniaethu anffafriol yn erbyn unrhyw blentyn neu oedolyn yn cael ei gymryd yn ddifrifol iawn. Ni oddefir symbolau, bathodynau nac arwyddluniau hiliol ar ddillad nac offer yn yr ysgol.

### Casgliad

Nid lle i ddysgu academaidd yn unig yw ysgol – mae angen datblygu plant cyflawn, fydd yn aelodau cyfrifol, gwerthfawr o gymdeithas. Mae'n rhaid i oedolion mewn ysgol gofio eu bod yn rôl fodelau i'r plant.

### Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: \_\_\_\_\_